sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# TROSOLWG / CRYNODEB O'N

YSGOL GYMRAEG FFWRNES

# <u>Cynllun Datblygu Ysgol :</u>

# <u>2023-2026</u>

# Ein Cynllun Datblygu Ysgol

Bob blwyddyn academaidd, rydym yn creu ein Cynllun Datblygu Ysgol (CDY). Mae hwn yn gynllun sy'n nodi'r meysydd y byddwn yn gweithio arnynt fel ysgol dros y flwyddyn academaidd.

O fis Medi 2022, rhaid i bob corff llywodraethu ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol canlynol wrth osod eu blaenoriaethau gwella:

- ✓ gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
- ✓ lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr

Mae ein CDY wedi ei rannu i flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod o ystod o ffynonellau gan gynnwys hunan-werthuso; dadansoddi data; adborth o ffynonellau allanol a monitro mewnol. Ysgrifennwyd y cynllun mewn cydweithrediad â staff, llywodraethwyr, plant a rhieni. Ar gyfer pob blaenoriaeth, cynllunnir nifer o gamau gweithredu trwy gydol y flwyddyn. Mae'n ddogfen gweithredol, ac er na fydd newidiadau mawr i'r cynllun, wrth i ni roi'r plant wrth galon popeth a wnawn, efallai y bydd newidiadau'n digwydd i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i anghenion ein disgyblion.

Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu ac ymroddiad iddynt, mae'r ysgol yn cyhoeddi'r copi cryno hon ar ein gwefan. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys :

1. crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
2. blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn bresennol, camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni'r blaenoriaethau hynny; a cherrig milltir perthnasol
   *gan gynnwys cymorth allanol a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol (gan gynnwys cymorth a gaiff ei roi neu ei froceru gan gonsortia rhanbarthol)
3. adroddiad ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol

Yn y modd hwn, bydd rhieni, gofalwyr a dysgwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth safonol sydd ar gael i bob ysgol. Bydd hyn yn cefnogi tryloywder drwy roi gwybodaeth reolaidd a chyson i rieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach am yr ysgol a'i datblygiad.

*Mae'r uchod yn cyd-fynd â'r disgwyliadau a nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

## Adran 1 : Crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu

| 3 maes trosfwaol ar gyfer hunanwerthuso : | **Beth ydym ni'n falch ohono yma yn Ysgol Ffwrnes**<br>Pethau mae'r ysgol yn eu gwneud yn dda. Nodweddion a/neu weithgareddau sy'n unigryw/arloesol i'r ysgol. Agweddau rydyn ni eisiau eu rhannu a'u dathlu. | **Beth allwn ni ei wneud yn well yma yn Ysgol Ffwrnes**<br>Meysydd lle gallai'r ysgol fod yn gweithio'n llawer mwy effeithiol, neu bethau y gallai'r ysgol fod yn eu gwneud yn well. |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth ac arweinyddiaeth** | • Mae gan yr uwch dîm reoli gweledigaeth gadarn a phwrpasol iawn er mwyn gyrru gwelliannu yn narpariaeth yr ysgol. Mae eu gweledigaeth wedi cael ei rhannu yn bwrpasol gyda'r holl randdeiliad priodol.<br>• Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn seiliedig ar fewnbwn ystod eang o bobl, lle mae eu barn wedi cael ei ystyried yn ddoeth . Mae'r weledigaeth yn sicrhau bod cynnydd yn safonau'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd llai breintiedig ac yn rhoi sylw dilys i'r blaenoriaethau cenedlaethol.<br>• Mae'r ysgol yn cael ei rheoli ac arwain gan uwch dîm proffesiynol a chadarn sydd yn gosod llwybr datblygu pwrpasol iawn i'r ysgol ac yn amlygu disgwyliadau uchel o'u hun a phawb o fewn y sefydliad.<br>• Mae'r corff llywodraethol yn rhagweithiol wrth ddod i adnabod yr ysgol ac yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cyfoethog i gasglu tystiolaeth llaw cyntaf o'r ddarpariaeth. Maent yn dal y pennaeth a'r ysgol i gyfrif yn effeithiol am y gwasanaeth mae'n darparu ac yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol yn effeithiol. | • Datblygu systemau i sicrhau bod cynorthwyr dysgu yn rhan o'r broses rheoli perfformiad.<br>• Datblygu arferion sefydliadau sy'n dysgu ar draws yr ysgol. |
| **Cwricwlwm, dysgu ac addysgu** | • Cynnydd amlwg a chadarn yn sgiliau a gwybodaeth rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol.<br>• Lefel o her yn gyson dda ar draws y dosbarthiadau sy'n caniatau i'r rhan fwyaf o'r disgyblion lwyddo hyd eithaf eu gallu.<br>• Cwricwlwm eang a phwrpasol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl.<br>• Mae profiadau dysgu dilys ac ymarferol yn cael eu datblygu sy'n sicrhau dyfnder yn y dysgu.<br>• Mae gan y staff ymwybyddiaeth dda o'r disgyblion ac mae rhan fwyaf yn cynllunio yn bwrpasol ar eu cyfer sy'n sicrhau cynnydd cadarn.<br>• Yn y lleiafrif o ddosbarthiadau mae'r athrawon yn defnyddio eu sgiliau digidol yn hynod o effeithiol i fachu diddordeb y dysgwyr.<br>• Mae bron pob un o'r staff yn amrywio eu haddysgeg i sicrhau cynnydd a dilyniant yng ngwybodaeth a sgiliau'r disgyblion e.e. defnyddio addysgeg uniongyrchol i wella sgiliau iaith a defnyddio addysgeg ymchwiliol i hybu annibyniaeth disgyblion. | • Parhau i ddatblygu sgiliau cymhwysedd digidol y disgyblion a pharhau i fagi hyder staff o fewn llinyn pedwar.<br>• Datblygu ymhellach cyfleoedd ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol.<br>• Cysoni cyfleoedd rhifedd ar draws i adlewyrchu'r arfer dda sy'n bodoli.<br>• O fewn gwersi ffurfiol arsylwyd ar enghreifftiau da o iaith llafar gyda disgyblion ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw'r sgiliau yn cael eu hadlewyrchu mewn sefyllfaoedd anffurfiol. |
| **Lles, tegwch a chynhwysiant:** | • Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn gyson dda.<br>• Mae perthynas waith ym misg y staff a'r disgyblion yn effeithiol iawn.<br>• Mae'r cyd berthnasoedd rhwng y plant yn llwyddiannus ac maent yn barod i gydweithredu'n effeithiol ac yn barchus.<br>• Mae'r athrawon yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu eu darpariaeth yn llwyddiannus i gwrdd ag anghenion bron pob un disgybl.<br>• Mae llais y disgybl yn cael effaith cadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol e.e. cynllunio'r cwricwlwm ac effaith cynghorau'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth gydweithio ag asiantaethau allanol i gwrdd â gofynion y dysgwyr yn effeithiol. | • Datblygu ymhellach cyfleoedd i'r disgyblion ar draws i wneud dewisiadau annibynnol ar sut i gyflwyno gwybodaeth a'i dysgu. |

# Adran 2 : Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol lefel uchel: 2024-2025

Blaenoriaeth 1 : I barhau i ddatblygu ymhellach cwricwlwm awthentig sy'n seiliedig ar ddysgu ymholiadol, er mwyn hyrwyddo'r cynnydd gorau i bob dysgwr.

Blaenoriaeth 2 : I gryfhau rhuglder mathemategol a'i cymhwysedd strategol trwy ddatblygu dulliau addysgu a chwestiynu ar draws yr Ysgol.

Blaenoriaeth 3 : Rhannu'r arferion gorau o ran amgylcheddau dysgu effeithiol sy'n bodoli er mwyn hyrwyddo lles a dysgu pwrpasol.

Blaenoriaeth 4 : Adolygu systemau a gweithdrefnau ADY a sicrhau bod y CADY Newydd yn hyderus yn ei rôl.

## Section 2.1 Camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni blaenoriaethau CDY a cherrig milltir perthnasol

<table>
<tr><th colspan="3">Blaenoriaeth 1 : I barhau i ddatblygu ymhellach cwricwlwm awthentig sy’n seiliedig ar ddysgu ymholiadol, er mwyn hyrwyddo’r cynnydd gorau i bob dysgwr.</th><th colspan="3">Blaenoriaeth 2 : I gryfhau rhuglder mathemategol a’i cymhwysedd strategol trwy ddatblygu dulliau addysgu a chwestiynu ar draws yr Ysgol.</th></tr>
<tr><td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td><td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td><td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td><td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td><td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td><td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td></tr>
<tr><td colspan="3">Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…<ul>
<li>Trefnu hyfforddiant 'dysgu seiliedig ar ymholiadau' gyda Phartneriaeth Dysgu Cymru.</li>
<li>Staff sydd wedi derbyn yr hyfforddiant ‘dysgu ar sail ymchwiliad’ i ymchwilio’r effaith ar lawr y dosbarth.</li>
<li>Adborth i'r ysgol gyfan ar yr ymchwil uchod.</li>
<li>Datblygu ymhellach cwricwlwm awthentig sy’n cynnwys elfennau yn seiliedig ar yr ardal leol er mwyn darparu profiadau pwrpasol ac ystyrlon (Ardal Ffwrnes/Llanelli).</li>
<li>Datblygu amgylchedd dosbarth sy’n hyrwyddo’r cynnydd gorau i bob dysgwr.</li>
<li>Cyfleoedd i staff fynychu hyfforddiant ar ddysgu ymholiadol.</li>
<li>Sbardun agored, eang sydd yn caniatâu cyfleoedd i'r dysgwyr arbrofi, ymholi ac arwain eu dysgu.</li>
<li>Sicrhau ‘diweddglo’ i'r dysgu (ar ddiwedd y tymor) i gyfuno’r holl sgiliau â ddysgwyd.</li>
<li>Monitro gwersi yn cynnwys arsylwad gwers llawn / teithiau dysgu / craffu ar dystiolaeth</li>
<li>Monitro’r amgylcheddau dysgu</li>
<li>Monitro cynllunio.</li>
</ul></td><td colspan="3">Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…<ul>
<li>Rhaglen ‘Winning with numbers’ - Bydd y rhan fwyaf o’r staff yn hyderus i ddefnyddio system strwythuredig ‘Winning with Numbers’ er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn caffael ar wybodaeth rhif sylfaenol.</li>
<li>Bydd y dysgwyr yn ennill dealltwriaeth gadarn o wybodaeth rhif sylfaenol ac yn datblygu rhuglder a hyder wrth ddefnyddio ffeithiau rhif (‘Winning with Numbers’).</li>
<li>Mae’r dysgwyr yn defnyddio strwythur pendant ar gyfer datrys problemau ac yn deall y camau sydd angen cymryd. Maent yn dangos gwytnwch, dyfalbarhâd a chreadigrwydd wrth fynd i'r afael â phroblemau a heriau.</li>
<li>Sicrhau cyfleoedd i'r dysgwyr ddatrys problemau yn seiliedig ar fywyd go iawn.</li>
<li>Mae cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd ag ymholiadau mathemategol sy’n dyfnhau eu dealltwriaeth o ddatrys problemau a rhesymu.</li>
<li>Ym mhob dosbarth mae yna wal fathemateg i atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant.</li>
<li>Mae’r wal mathemateg yn gyfredol i ddangos yr hyn sy’n cael ei gwmpasu ym mathemateg ar y pryd.</li>
</ul></td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…<ul>
<li>Rhennir yr arferion gorau o addysgu a dysgu ar draws y ddwy ysgol yn y ffederasiwn anffurfiol.</li>
<li>Mae profiadau ysgrifennu trawsgwricwlaidd ar gyfer disgyblion yn llwyddiannus.</li>
<li>Mae profiadau a disgwyliadau dysgu/ysgrifennu ar draws camau dilyniant yn cael eu mapio allan ar gynllun canolig a thymor hir.</li>
<li>Defnyddir yr ardal allanol yn gyson i gyfoethogi'r dysgu.</li>
<li>Mae lefel yr her yn briodol i'r disgyblion ym mhob dosbarth drwy wahaniaethu pwrpasol.</li>
<li>Cynhelir cyfarfodydd cynnydd tymhorol.</li>
<li>Gweithgareddau pwrpasol sydd wedi'u cynllunio i'r dysgwyr gydweithio.</li>
<li>Mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn bodloni gofynion ac anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus gyda'r gwahaniaethu yn bwrpasol yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau ac yn hynod effeithiol mewn tua hanner y dosbarthiadau.</li>
<li>Mae disgyblion Dysgu Sylfaen yn dewis yn rhydd yn y meysydd darpariaeth barhaus.</li>
<li>Bydd bron pob athro yn cynllunio 'heriau' thematig yn bwrpasol gydag edefyn clir a dolen yn rhedeg trwy'r holl weithgareddau dysgu.</li>
</ul></td><td colspan="3">Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…<ul>
<li>Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i ddefnyddio sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm.</li>
<li>Bydd y rhan fwyaf o staff yn hyderus i ddefnyddio system strwythuredig ‘Winning with Nmbers’ i sicrhau bod dysgwyr yn caffael ar wybodaeth rhifau sylfaenol.</li>
<li>Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gadarn o wybodaeth rhifau sylfaenol ac yn datblygu rhuglder a hyder wrth ddefnyddio rhifau (‘Winning with Nmbers’).</li>
<li>Mae dysgwyr yn defnyddio strwythur pendant ar gyfer datrys problemau ac yn deall y camau y mae angen eu cymryd. Maent yn dangos gwydnwch, dyfalbarhad a chreadigrwydd wrth fynd i'r afael â phroblemau a heriau. Yng Ngham Dilyniant 3, gall dysgwyr ymgymryd â rolau penodol a gwahanol mewn grŵp wrth ddatrys problemau.</li>
<li>Mae cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ddatrys problemau yn seiliedig ar fywyd go iawn.</li>
<li>Mae cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd ag ymholiadau mathemategol sy'n dyfnhau eu dealltwriaeth o ddatrys problemau a rhesymu.</li>
<li>Ym mhob dosbarth mae arddangosfa pwrpasol i atgyfnerthu dealltwriaeth Mathemategol.</li>
<li>Ym mhob dosbarth mae wal fathemateg i atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant. Mae'r wal yn gyfredol i ddangos beth sy'n cael ei orchuddio mewn mathemateg ar y pryd.</li>
<li>Mae gan y staff addysgu ddealltwriaeth gadarn o'r 5 hyfedredd mathemategol ac maent yn cynllunio gwersi o amgylch yr hyfedredd hyn.</li>
</ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="3">Blaenoriaeth 3 : Rhannu’r arferion gorau o ran amgylcheddau dysgu effeithiol sy’n bodoli er mwyn hyrwyddo lles a dysgu pwrpasol.</td><td colspan="3">Blaenoriaeth 4 : Adolygu systemau a gweithdrefnau ADY a sicrhau bod y CADY Newydd yn hyderus yn ei rol.</td></tr>
<tr><td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td><td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td><td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td><td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td><td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td><td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td></tr>
<tr><td colspan="3">Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…<br>• Cysondeb o fewn amgylcheddau dysgu a’r cyfleoedd sydd yn cael eu cynnig o fewn pob dosbarth.<br>• Llais y disgyblion yn cael eu defnyddio i ddatblygu ardaloedd penodol ar gyfer dysgu.<br>• Ardaloedd dysgu pwrpasol o amgylch yr ysgol.<br>• Parthau o fewn ardaloedd allanol Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2 yn cael eu datblygu a defnyddio’n bwrpasol.<br>• Arddangosfeydd rhyngweithiol sy’n hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion ac yn dathlu eu gwaith.<br>• Trefnu hyfforddiant Learning through landscapes ar gyfer staff gyfan.</td><td colspan="3">Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…<br>• Mae CADY newydd wedi cael ei apwyntio yn dilyn ymddeoliad CADY blaenorol yr ysgol ar ôl 13 blwyddyn o wasanaeth<br>• Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fuddiol iawn. Mae’r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion sydd ag anghenion dwys yn dda. Mae nifer o raglenni ymyrraeth, sy’n cael eu harwain yn fedrus gan gynorthwywyr yn yr ysgol, yn cael effaith dda iawn ar safonau lles disgyblion.<br>• Defnyddir deilliannau asesu yn bwrpasol er mwyn cynllunio rhaglenni ymyrraeth effeithiol sy’n bodloni gofynion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r elfen hon o waith yr ysgol yn gryfder.<br>• Mae llawer o’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau tra bod rhan fwyaf o’r disgyblion sydd ag anghenion penodol dwys yn gwneud cynnydd arbennig.<br>• Mae llawer o’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.<br>• Mae gan yr ysgol system digidol ar gyfer cadw cofnodion ADY y dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw’n hawdd dod o hyd i ddogfennaeth ar y system na chwaith ei gadw’n gyfredol.<br>• Mae angen newid ethos y system CADY o fewn yr ysgol i fod yn gefnogol er mwyn sicrhau atebolrwydd pob aelod staff.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…<br>• Gall bron pob disgybl ddwyn i gof sgiliau a gwybodaeth a addysgwyd yn flaenorol a gallant eu cymhwyso i brofiadau dysgu dilys newydd.<br>• Mae bron pob disgybl yn ddysgwyr gwydn. Maent yn hyderus i gymryd risgiau ac ymgymryd â heriau newydd, ac maent yn deall eu bod yn aml yn dysgu o wneud camgymeriadau.<br>• Mae bron pob disgybl yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn aeddfed, gan ddefnyddio meini prawf llwyddiant yn gadarn. Mae meithrin disgyblion i allu rhoi adborth adeiladol i’w gilydd yn eu helpu i ddatblygu medrau meddwl dadansoddol.<br>• Mae gan bron bob un o’r disgyblion ddealltwriaeth gref o’u targedau dysgu personol a’r hyn sydd angen iddynt eu gwneud er mwyn gwella eu gwaith.</td><td colspan="3">Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…<br>• CADY newydd wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ac yn hyderus yn ei swydd.<br>• Pan fydd ein system digidol ADY yn galluogi staff i gael mynediad effeithiol pwrpasol.<br>• Bod gan y staff yr hyder i droi at y CADY am gymorth perthnasol.<br>• Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn gyfoes ac wedi ei greu ar sail ddata.<br>• System tracio effeithiol wedi ei sefydlu (gweler blaenoriaeth 1).<br>• Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb dros ADY wedi ei penodi.<br>• Gwahaniaethu effeithiol ar lawr y dosbarth sydd yn rhyddhau’r staff ADY i ffocysu ar y disgyblion nad yw’n bosib darparu ar eu cyfer o fewn y dosbarthiadau.<br>• Map Darpariaeth syml sydd yn gwneud y defnydd orau o gymhwysterau a sgiliau’r staff yn ei le.<br>• Disgyblion ADY yn parhau i wneud y cynnydd disgwyledig neu’n well.</td></tr>
</table>

## Adran 3 : Adroddiad ar gynnydd/effaith yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol (2023-2024)

| **Blaenoriaeth** | **Effaith**<br>*A wnaethom gyrraedd ein targedau? Beth oedd yr effaith? Os na chyflawnwyd hyn yn llawn, eglurwch pam.* |
| --- | --- |
| **Blaenoriaeth 1 -**<br>**Gwella sgiliau llafar Cymraeg ein dysgwyr a chodi statws yr iaith a pharch tuag at y Gymraeg ar draws yr ysgol.** | Yn ystod y sesiynau iaith lafar a arsylwyd, roedd bron pob un disgybl yn ymrwymo yn bwrpasol i'r dysgu ac yn dangos mwynhad a brwdfrydedd wrth ddatblygu eu sgiliau llefaredd Cymraeg. Roedd gan yr holl staff addysgu gwybodaeth bynciol o safon am ramadeg Cymraeg ac yn fodelau rôl llwyddiannus i'r disgyblion. O ganlyniad, roedd llawer o'r disgyblion yn datblygu patrymau iaith Cymraeg cywir ar lafar. Mae'r athrawon yn herio ac yn gosod disgwyliadau uchel o ran safonau iaith Cymraeg llafar ar y plant. O ganlyniad, roedd disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth o reolau gramadegol Cymraeg e.e. dealltwriaeth o reolau treiglo wrth negyddu'r ferf ym mlwyddyn 3. Ar draws yr ysgol, mae yna gynnydd amlwg yn y disgwyliadau o ran sgiliau llefaredd disgyblion ac mae'r dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dwfn ac effeithiol wrth iddynt aeddfedu trwy'r ysgol. Wrth sgwrsio gydag oedolion, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth llwyddiannus o ystod o eirfa Cymraeg sydd yn briodol i'w hoed a gallu gan ymateb yn gywir ac effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn sgwrsio'n llwyddiannus yn y Gymraeg o fewn dosbarthiadau a gydag athrawon, fodd bynnag, mewn cyfnod mwy anffurfiol, mae llawer o'r disgyblion yn parhau i droi i'r Saesneg. |
| **Blaenoriaeth 2 - Datblygu dealltwriaeth ein dysgwyr o bwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data a sut mae hyn yn cysylltu â'n byd digidol.** | Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ddysgwyr digidol hyderus ac yn hapus yn trafod ac yn egluro eu gwaith a gwblhawyd ar gyfrifiadur ac yn hyderus wrth drin a rheoli dyfeisiau digidol. Gall bron pob un o'r dysgwyr ddwyn i gof yn effeithiol ffyrdd o gadw'n ddiogel ar-lein gan ddatblygu strategaethau mwy soffistigedig gydag oedran. Mae hyn yn cynnwys strategaethau ar gyfer gweithio'n ddiogel yn yr ysgol a gartref e.e., chwarae gemau ar-lein yn gwrthod ceisiadau gan ffrindiau gan bobl anhysbys. Mae bron pob un o'r dysgwyr hŷn yn deall yn dda na ellir ymddiried ym mhopeth ar-lein. Mae bron pob disgybl ym mlynyddoedd 5 a 6 yn datblygu strategaethau i fynd i'r afael â dibynadwyedd gyda dysgwyr B5 yn cymharu gwefannau ac yn gwirio gydag eraill a dysgwyr B6 yn gallu enwi gwefannau dibynadwy. Darperir cyfleoedd rhyngweithio a chydweithio buddiol i'r disgyblion, fodd bynnag, amrywiol oedd y cyfleoedd a'r dilyniant. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd da a buddiol i ddefnyddio ystod o feddalwedd i greu gwaith digidol at ddiben, ac i ddatblygu dysgu mewn cyd-destunau dilys. Mae hyn yn cynnwys cyfuno testun, delweddau a pheth sain a fideo. Mae llawer o ddysgwyr iau yn gwneud cynnydd da yn eu medrau modelu data gan gynnwys dehongliad yn aml, fodd bynnag mae angen datblygu hyn yn fwy cadarn gyda dysgwyr hŷn. Nid yw trin data ychwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn gyffredinol ar gyfer defnyddio cronfeydd data canghennog a chronfeydd data cofnodion.<br>Mae cyfleoedd i feddwl yn gyfrifiadurol hefyd angen datblygiad sgiliau cyson pellach a dealltwriaeth o gysyniadau meddwl cyfrifiannol. Mae'r holl staff wedi eu huwchsgilio yn effeithiol ar sut i addysgu agweddau o linyn 4 y fframwaith cymhwysedd digidol. Mae'r cydlynydd wedi rhannu holiadur buddiol er mwyn gweld lle mae bylchau yn sgiliau'r staff ac wedi cefnogi yn ôl yr angen. Bellach, mae'r staff yn barod i ofyn am gymorth a nodi lle mae diffyg yn eu gwybodaeth ac mae'r athrawon yn cynorthwyo ei gilydd yn fewnol. Mae lleiafrif o'r staff yn defnyddio sgiliau digidol personol yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau bod y dysgu yn ddiddorol ac yn bachu diddordeb disgyblion e.e., defnydd goggles VR ac argraffydd 3D. Wrth i'r staff ddatblygu dealltwriaeth o beth mae llinyn 4 yn ei olygu, maent yn gweld pwrpas penodol i ddefnyddio teclynnau technolegol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r athrawon yn y dosbarthiadau ifancaf wedi sefydlu ardal Beebot gan osod gweithgareddau pwrpasol, er mwyn datblygu sgiliau codio'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n fwriadus i roi profiadau i'r disgyblion yn holl linynnau y fframwaith cynhwysedd digidol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu ystod eang o sgiliau digidol gan gynnwys sgiliau dinasyddiaeth, cynhyrchu a chydweithio. Mae'r staff yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu sgiliau digidol y disgyblion e.e., llunio catch phrase o idiomau Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 3 -** Gwella medrau darllen a deall disgyblion a datblygu uwch sgiliau darllen yn y Gymraeg. | Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod ac enwi ystod o lythrennau, gan gyfateb ffonemau a graffemau yn foddhaol. Wrth ddatblygu, maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen geiriau syml. Erbyn blwyddyn 2, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd effeithiol o ran datblygu eu medrau darllen sylfaenol. Wrth ddatblygu drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddadgodio a darllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn deall yr hyn a ddarllenant ac yn cael amser i drafod eu testunau unigol. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol yn ôl eu hoed a'u gallu. Mae tua hanner y disgyblion hŷn yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n gywir i ddangos eu dealltwriaeth wrth ddarllen nofelau a thestunau pwrpasol. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu rhai strategaethau i ymarfer uwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer yr ystod lawn mewn sesiynau carwsél ac nid yw'r arfer o gynnal sesiynau carwsél darllen yn gyson ar draws yr adran iau. Mae'r ysgol wedi defnyddio adnoddau sydd wedi eu cynhyrchu a rhannu eisoes er mwyn gweithredu ar yr agwedd hon ar draws yr ysgol. Gwerthusiad cynnydd: Er i garwsél darllen bodoli o fewn yr ysgol yn flaenorol, mae'r staff wedi mynd ati'n bwrpasol i'w ddatblygu'n bellach, gan sicrhau bod yna ddarpariaeth cyffredin yn bodoli ar draws yr holl ddosbarthiadau. Maent hefyd wedi sicrhau, bod sgiliau'r disgyblion yn cael eu datblygu yn llwyddiannus wrth symud trwy'r ysgol. Yn ystod y carwsél darllen roedd bron pob disgybl yn ymrwymo'n fuddiol i'r gweithgareddau dysgu. Mae'r sesiynau wedi eu cynllunio'n fanwl ac mae'r ysgol wedi sicrhau bod y sgiliau a ddatblygir yn adeiladol wrth symud i fyny, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion erbyn blwyddyn 6, yn dangos uwch sgiliau darllen effeithiol wrth drafod a chwestiynu testun. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod gweithgareddau defnyddio geiriadur buddiol wedi eu cynnwys sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth i ganfod ystyr geiriau a geiriau cyfystyr gan ddefnyddio thesawrws. Mae ychydig o ddisgyblion o oed ifanc, yn medru esbonio'n effeithiol iawn sut i ddefnyddio geiriadur yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn asesu sgiliau darllen y disgyblion yn gadarn ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi ei wahaniaethu'n fuddiol i gwrdd gydag anghenion y disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu sgiliau darllen. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cwestiynu y disgyblion yn effeithiol o fewn y sesiynau, sydd yn sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth da o nodweddion testunau ysgrifenedig. |
| **Blaenoriaeth 4 - Sicrhau lefel gyson o her ac adnoddau diriaethol a gweledol i ddatblygu ymhellach sgiliau cysyniadol a rhesymu dysgwyr.** | Tra yn yr ysgol, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu sgiliau rhif ac mae yna gynnydd amlwg yn yr her a'r cyflawniad ar draws amser. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o werth lle yn briodol i'w hoed a gallu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru adalw dysgu blaenorol i'w helpu i ddatrys problem ac mae'r sgiliau rhifedd pen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus i'w hoed a gallu. Mae llawer o'r disgyblion yn medru defnyddio eu sgiliau mathemateg yn llwyddiannus wrth ddatrys problemau mathemategol er nad oes dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar draws yr ysgol i gefnogi'r agwedd hon. Mewn rhai blynyddoedd, mae'r disgyblion yn defnyddio eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm i lefel sy'n gyson i'r hyn a welir mewn sesiynau rhif penodol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Ar draws yr ysgol mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau trin data yn llwyddiannus iawn gan lwyddo i ddadansoddi gwybodaeth penodol a gyflwynir mewn siartiau a graffiau er mwyn datrys problemau heriol. Maent hefyd yn llwyddo i gyflwyno'r data mewn graffiau yn fedrus gan ddefnyddio'r math priodol o siart a chyflwyno yn unol a meini prawf llwyddiant y siart penodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn medru defnyddio sgiliau arian yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i ddatrys problemau bywyd go iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu sgiliau mesur yn fedrus mewn gweithgareddau ymarferol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn medru rhesymu yn rhesymegol, yn enwedig ar frig yr ysgol. Fodd bynnag, mae angen modelu a chryfhau y sgiliau yma yn gyson ar draws yr ysgol.<br><br>Yn gyson ar draws yr ysgol, roedd dealltwriaeth bron pob un disgybl o eirfa mathemategol safonol gadarn ac roedd y disgyblion yn medru defnyddio'r eirfa yn llwyddiannus iawn wrth drafod eu gwaith. Gweithredu ac effaith. Mewn llawer o'r dosbarthiadau ar draws yr ysgol mae lefel yr her gweithgareddau rhifedd a ddarperir i'r disgyblion yn dda ac yn adlewyrchu'r hyn a welir yn y dysgu uniongyrchol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd llwyddiannus yn eu sgiliau rhifedd ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos lefelau uchel o |

| | |
|---|---|
| | annibyniaeth a hunan reolaeth wrth fynd i'r afael gyda thasgau rhifedd penodol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn hapus i drafod ac esbonio eu gwaith.<br><br>Ar draws yr ysgol mae amrywiaeth o weithgareddau diddorol ac ysgogol yn cael eu cynllunio a'u darparu gan y staff sydd yn sicrhau lefelau uchel o ddiddordeb gan y disgyblion. Mae'r amgylchedd mewnol wedi cael ei drefnu yn dda. Fodd bynnag, gellir datblygu ymhellach yr ardaloedd mathemateg a'r adnoddau sydd ar gael i'r disgyblion fel eu bod yn medru mynd i'r afael gydag heriau rhif yn fwy effeithiol gan ddefnyddio adnoddau gweledol a choncrit. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos gwytnwch wrth fynd i'r afael a phosau geiriol mathemateg. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddull cyffredin ar draws yr ysgol i'w ddefnyddio, er mwyn eu cynorthwyo i ddatrys yr heriau.<br><br>Mae'r amgylchedd wedi ei drefnu'n hynod lwyddiannus ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a gwytnwch. Mae'r amgylchedd dysgu mewnol ym mlynyddoedd hŷn y dysgu sylfaen yn drefnus a phwrpasol. Fodd bynnag, gellir ei ddatblygu ymhellach i ganiatáu mwy o annibyniaeth o ran dewis y dysgu yn y dosbarthiadau hynny er mwyn hyrwyddo ymhellach chwilfrydedd a mentergarwch y disgyblion. Mae'r ardal allanol yn cael ei ddefnyddio o dan oruchwyliaeth i wneud tasgau ffocws. Fodd bynnag, nid oes llif naturiol i'r dysgu o'r ardal ddysgu mewnol i'r ardal ddysgu allanol a phrin yw'r cyfleoedd sydd gan y disgyblion i gymhwyso eu sgiliau yn rhif yn yr ardal allanol.  Roedd llawer o'r disgyblion yn medru esbonio sut roeddent wedi canfod ateb mewn un dull yn dda. Fodd bynnag, ychydig iawn oedd yn medru dangos nifer o ddulliau gwahanol o ganfod yr ateb a phrofi eu penderfyniadau e.e. gan ddefnyddio y gwrthdro, lluniau, adnoddau concrit, adnoddau digidol a.y.b. |
| Blaenoriaeth 5 - Datblygu ymhellach gwricwlwm dilys o ddysgu ar sail ymholiad er mwyn sicrhau'r cynnydd gorau posibl yn ein dysgwyr. | Mae bron pob aelod o staff wedi treialu nifer o ddulliau ac erbyn hyn mae addysgeg gyson ond gwahanol ar gyfer pob cam dilyniant. Mae gan bron pob aelod o staff ddealltwriaeth dda o'r pedwar diben, ac mae'r rhain yn rhan annatod o gynllunio athrawon a welir mewn llyfrau llawr wythnosol. Mae'r holl staff wedi mynychu hyfforddiant AOLE gan y consortia rhanbarthol. Mae gan y rhan fwyaf o staff ddealltwriaeth dda o'r disgrifiadau dysgu ac yn defnyddio 'Building Blocks' yn effeithiol i gynllunio. Bellach, mae angen cysoni a miniogi y dulliau dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol a sicrhau dilyniant yn yr addysgeg a'r cwricwlwm a ddarperir. Nid yw'r ysgol wedi gweithredu yn llawn fel sefydliad sydd yn ymchwilio'n strategol ar gyfer dysgu a datblygu ei darpariaeth ac angen esblygu ymhellach eu dealltwriaeth o sut i gynnal ymchwil gweithredol llwyddiannus a phwrpasol. Mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain cynnydd disgyblion yn ddoeth ac yn bwrpasol. Maent yn defnyddio data profion cenedlaethol yn bwrpasol i gryfderau ac ardaloedd i'w datblygu. Maent yn ei ddefnyddio yn dda fel rhan o brosesau ehangach o fyfyrio ar gynnydd disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu'r defnydd o gyfarfodydd cynnydd yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod y rhan ddeiliaid allweddol yn rhan o'r drafodaeth. Maent wedi datblygu system effeithiol i nodi cynnydd unigolion dros amser a myfyrio ar gynnydd grwpiau unigol o blant. Fodd bynnag, gellir datblygu ymhellach gallu'r disgyblion i adnabod eu cryfderau ac ardaloedd datblygu personol.<br><br>Mae'r ysgol yn credu'n gryf bod pob disgybl yn medru gwneud cynnydd ac yn dathlu llwyddiant. Mae'r ysgol yn ystyried ystod dda o wybodaeth wrth fyfyrio ar gynnydd disgyblion. Mae'r cyfnodau yma yn arwain at fireinio darpariaeth i gwrdd gydag anghenion y disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithredu ac yn treialu datblygiad cwricwlwm ymholol mewn detholiad bach o ddosbarthiadau. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar yn ei ddatblygiad felly maen rhy gynnar i fesur ei effaith ac nid yw wedi ymwreiddio ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi mynd ati i fapio cyfleoedd amrywiol ar draws eu cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod yna gwricwlwm eang a chytbwys yn cael ei ddarparu i'r disgyblion. |